

Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Cymru) (Diwygio) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Cymru) (Diwygio) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
13 Ionawr 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2310) (“y Rheoliadau Ffioedd a Dyfarniadau”);
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1484) (“Rheoliadau CCP”);
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (OS 2017/47) (“Rheoliadau 2017”);
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/523) (“Rheoliadau Meistr 2017”);
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/191) (“Rheoliadau 2018”);
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/656) (“y Rheoliadau Doethurol”); a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/895) (“Rheoliadau Meistr 2019”).

1.2 Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r uchod (a elwir ar y cyd yn “rheoliadau cyllid myfyrwyr”) er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Nid oes materion o ddiddordeb arbennig yn codi.

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 (“Deddf 1983”), adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (“Deddf 2015”) ac adrannau 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (“Deddf 1998”).

3.2 Mae adrannau 1 a 2 o Ddeddf 1983 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n eu gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi codi ffioedd uwch ar fyfyrwyr penodol ac yn awdurdodi rheolau cymhwysra mewn

perthynas â dyfarniadau penodol mewn cysylltiad ag addysg, hyfforddiant neu ymchwil.

- 3.3 Mae adran 5 o Ddeddf 2015 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhagnodi (ymysg pethau eraill) y personau cymwys a fydd yn elwa ar y terfynau ffioedd a nodir yng nghynllun ffioedd a mynediad sefydliad. Mae hyn yn gymwys i'r sefydliadau hynny yng Nghymru sy'n cael eu rheoleiddio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan Ddeddf 2015.
- 3.4 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach sy'n cael eu dynodi gan y rheoliadau hyn, neu odanynt. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymysg pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.
- 3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458).
- 3.6 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
- 3.7 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy yn gyddredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru,
- 3.8 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
- 3.9 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.10 Gwneir rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i roi sylfaen i'r system o gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru ac sy'n cymryd cyrsiau dynodedig mewn addysg uwch yn y DU, a myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru. Mae'r rheoliadau cyllid myfyrwyr yn cynnwys meini prawf cymhwysra sy'n golygu y gall grwpiau penodol fod yn gymwys am gymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a'r capiau ffioedd dysgu.
- 4.2 Mae Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n cymryd cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018, ar y dyddiad hwnnw, neu ar ei ôl yn y drefn honno. Cyrsiau gradd llawnamser a rhan-amser yw'r rhain yn bennaf. Mae Rheoliadau 2018 hefyd yn darparu cymorth ar gyfer cyrsiau sy'n cychwyn cyn 1 Awst 2018 ac yn cael eu trosglwyddo wedi hynny o gwrs llawnamser i gwrs rhan-amser neu gwrs rhan-amser i gwrs llawnamser ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny.
- 4.3 Mae Rheoliadau Meistr 2019 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n cymryd cyrsiau Meistr ôl-raddedig dynodedig sy'n cychwyn ar 1 Awst 2019, neu ar ôl hynny, ac mae Rheoliadau Meistr 2017 yn gwneud hynny ar gyfer cyrsiau Meistr ôl-raddedig sy'n cychwyn cyn y dyddiad hwnnw. Mae'r Rheoliadau Doethurol yn gwneud darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n astudio cyrsiau doethurol dynodedig sy'n dechrau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny.
- 4.4 Mae'r Rheoliadau CCP yn gwneud darpariaeth ar gyfer (ymysg pethau eraill) y personau hynny a fydd yn gymwys am y cap ffioedd dysgu (£9,000 ar hyn o bryd yng Nghymru). Mae'r Rheoliadau Ffioedd a Dyfarniadau yn ei gwneud yn gyfreithlon i wahaniaethu rhwng myfyrwyr wrth godi ffioedd, ac yn sefydlu "statws ffioedd cartref". Caniateir codi ffi uwch ar fyfyrwyr nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysra penodol o'u cymharu â'r rheini sydd yn eu bodloni. Bydd myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer statws ffioedd cartref hefyd yn elwa ar y cap ffioedd dysgu.
- 4.5 Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r rheoliadau cyllid myfyrwyr fel yr amlinellir isod.

Gwladolion Gwyddelig sy'n preswyl yn yr UE cyn astudio yng Nghymru

- 4.6 O ganlyniad i'r trefniant Ardal Deithio Gyffredin, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwladolion Gwyddelig sy'n astudio yng Nghymru a oedd yn preswyl yn yr AEE a'r Swistir ar ddiwedd y cyfnod pontio sy'n

gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE, fel eu bod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chymorth ffioedd fel bod ei sefyllfa'n gymaradwy â gwladolyn y DU.

- 4.7 Mae cymhwysra wedi'i gyfyngu i'r rheini sy'n dechrau cyrsiau ar 31 Rhagfyr 2027 neu cyn hynny. Mae'r cyfyngiad amser hwn yn gymwys i nifer fechan o gategoriâu cymhwysra er mwyn darparu ar gyfer cyfnod rhesymol ar gyfer dychwelyd ar ôl ymadawiad y DU â'r UE.
- 4.8 Gwneir mân ddiwygiadau hefyd i'r darpariaethau sy'n galluogi cymorth a statws ffioedd cartref i'r rheini sydd wedi setlo yn y DU a oedd yn preswyllo fel arfer yng Ngweriniaeth Iwerddon, er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r trefniant Ardal Deithio Gyffredin.

Erthygl 18 o Gytundeb Ymadael â'r UE

- 4.9 Diwygir y rheoliadau er mwyn sicrhau cysondeb â'r Trefniadau Ymadael. Mae hyn yn ymwneud â hawliau'r rheini sy'n gwneud cais hwyr i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ac i aelodau o'r teulu yn y dyfodol sydd heb wneud cais eto ond sy'n parhau o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny. Gwneir diweddariadau i'r diffiniad o berson â hawliau gwarchodedig er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau'n adlewyrchiad cywir o ofynion:
- a) erthygl 18(3) o Gytundeb Ymadael â'r UE (ac erthyglau cyfatebol mewn cytundebau ymadael eraill), sy'n rhoi amddiffyniadau i berson, gan gynnwys person sydd wedi cyflwyno cais hwyr, tra bo'i gais yn yr arfaeth ac yn ystod unrhyw apêl yn erbyn gwrthod ei gais (gellir gwneud diweddariadau cyfatebol hefyd i'r categori cymhwysra sy'n ymwneud â'r rhai sydd â statws preswlydd sefydlog o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE); ac
 - b) erthygl 18(2) o Gytundeb Ymadael â'r UE (ac erthyglau cyfatebol mewn cytundebau ymadael eraill), sy'n rhoi amddiffyniadau i berson sydd o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais, gan gynnwys person sy'n ymuno ag aelod o'r teulu yn ystod y tri mis dilynol wedi iddynt gyrraedd y DU.

Cymorth i fyfyrwyr i'r rheini o Dirigaethau Dibynnol ar y Goron

- 4.10 Canlyniad anfwriadol y diwygiadau a wneir i reoliadau yn 2021 er mwyn hwyluso'r ymadawiad â'r UE yw bod personau sy'n preswyllo fel arfer mewn

Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron wedi dod o fewn y cwmpas ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, yn groes i bolisi sefydledig. Mae'n ofynnol diwygio i sicrhau nad yw personau (ac eithrio dinasyddion Gwyddelig penodol) sy'n dod i Gymru o Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel at ddibenion astudio yn gymwys i gael cymorth.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Os na wneir y diwygiadau hyn i'r rheoliadau, ni fydd y Rheoliadau'n gyson â'r Cytundebau Ymadael (Cytundeb Ymadael â'r UE, cytundeb gwahanu EFTA yr AEE a'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd) a threfniant yr Ardal Deithio Gyffredin.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

Trwy wneud y Rheoliadau, mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn gyson â'r Cytundebau Ymadael a threfniant yr Ardal Deithio Gyffredin.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

- 7.1 Ni fyddai costau ychwanegol na manteision penodol mewn parhau â busnes fel arfer.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

- 7.2 Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb refeniw a chyllideb cyfalaf ar gyfer 2021-22, y cyfnod y mae ganddi setliad cyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ei chyfer. Ceir copi o'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 isod. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb hon, ac mae effaith gwneud y ddeddfwriaeth yn debygol o fod yn fychan. Roedd 360 o fyfyrwyr o Iwerddon yn astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ym mlwyddyn academiaidd 2019/20, a 160 o fyfyrwyr o Dirigaethau Dibynnol ar y Goron allan o gyfanswm o 125,635 o fyfyrwyr. Rhagwelir y bydd y nifer o fyfyrwyr o Iwerddon yn parhau i fod yn weddol debyg hyd at y flwyddyn academiaidd sy'n dechrau ar 31 Rhagfyr 2027 neu cyn hynny, gan gynnwys y flwyddyn academiaidd honno. Nid yw'n bosibl rhagweld nifer y myfyrwyr y mae'r diwygiad i Erthygl 18 yn mynd i effeithio arnynt ond rhagwelir y bydd yr yn fychan iawn. Mae'n annhebygol y bydd myfyrwyr o Dirigaethau Dibynnol ar y Goron wedi gwneud cais am gymorth i fyfyrwyr ym mlwyddyn academiaidd 2021/22 gan ei bod yn cael cymorth gan eu Llywodraethau perthnasol, ac felly disgwylir y bydd yr effaith yn fychan iawn.

Cyllideb	£m
Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr (BEL 4704)	358.717
Cymorth i Fyfyrrwyr AME [Adnodd a Chyfalaf] (BEL 4713)	820.575
Benthyciadau i Fyfyrrwyr - Cost Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (BEL 4707)	110.712
Cyfanswm	1,290.004

- 7.3 Y manteision o wneud y rheoliadau yw bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei fframwaith deddfwriaethol yn gyson â'r Cytundebau Ymadael a threfniant yr Ardal Deithio Gyffredin.

8. Asesu'r gystadleuaeth

- 8.1 Nid yw gwneud y Rheoliadau hyn yn cael effaith ar ba mor gystadleuol yw busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

- 9.1 Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr yn cael ei hadolygu'n flynyddol ac yn destun adolygiad manwl, parhaus, gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi o ran gweithredu'r rheoliadau'n ymarferol.